

TWRISTIAETH AR WAITH

BANNAU
BRYCHEINIOG
EIN PARC CENEDLAETHOL

TWRISTIAETH GYNALIADWY YM MHARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

rhifyn 23 gwanwyn 2015



Yn y rhifyn hwn

Cynghreiriau
Gwledig

Siarter Busnes
Cyfrifol

Twristiaeth Werdd



Y Cyfryngau
Cymdeithasol

Newyddion o'r trefi
a'r pentrefi yn y Parc

Cynghreiriau Gwledig yn Dathlu!

Cafodd pawb amser gwych yng Nghynhadledd Derfynol prosiect y Cynghreiriau Gwledig. Fe wnaethon ni lenwi Neuadd Elim gyda 150 o bobl, oedd i gyd yn llawn brwdfrydedd ynghylch creu cymunedau lleol bywiog. Ac yna dangosodd gweithdai mewn 6 o gymunedau lleol i'n hymwelwyr yr holl bethau cyffrous yr ydym wedi bod yn eu gwneud yn lleol. Diolch i bawb a helpodd i wneud y digwyddiadau hyn i gyd yn gymaint o lwyddiant.

Yn ystod y Gynhadledd clywsom gan Peter Davies, Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy i Gymru, yn dangos pa mor bell ar y blaen y mae Cymru i lawer o genhedloedd eraill. Dywedodd wrthym fod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynd i wneud gwahaniaeth go iawn ar lawr gwlad a bod y gwaith rydym yn ei wneud yma ym Mannau Brycheiniog yn cyfrannu at y weledigaeth honno.

Mae'r Athro Terry Marsden wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Cynghreiriau Gwledig a chyflwynodd amddiffyniad angerddol i ni o'r economi gwledig, gan ddangos bod ein hanghenion ni yn wahanol i ardaloedd trefol a bod yn rhaid i ni frwydro am sylw. Yn olaf cyflwynodd Thijs de la Court ei syniadau i ni am lywodraethu - unwaith eto mae angen i ni ddewis ein ffordd ein hunain o weithredu a chymryd rheolaeth hyderus o'n dyfodol.

Bydd y prosiect yn parhau yma tan ddiwedd Gorffennaf felly mae digon o waith i'w wneud eto. Cyflawnwyd llawer iawn dros y 3 blynedd ddiwethaf felly diolch i bawb sydd wedi cyfrannu a chymryd rhan. Byddwch yn gallu gweld fideo o'r cyflawniadau allweddol yng Nghynhadledd mis Ebrill neu yn <https://youtu.be/Lc2d5p4--kE>.

Mae Cynghreiriau Gwledig yn brosiect trawswladol a ariennir gan raglen Interreg IVB NWE yr Undeb Ewropeaidd yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Ei nod yw gwrthweithio effeithiau negyddol newid demograffig drwy gynyddu bywiogrwydd gwledig.

Dathlu Tair Blynedd o Lwyddiant y Cyngbreiriau Gwledig

Wrth edrych yn ôl dros dair blynedd mae llawer wedi'i gyflawni, a gofynnwyd i bob un o grwpiau'r Cyngbreiriau Gwledig ymgymryd â strategaeth dwristiaeth gynaliadwy a chynllun gweithredu y gallai Cyngbreiriau weithio tuag atynt drwy gydol y prosiect a thu hwnnt.

Roedd hyn yn cynnig fframwaith i weithio tuag ato a syniad o gyfeiriad. Edrychwch ar y ffilm a fydd yn mynd â chi ar daih i weld llwyddiannau'r Cyngbreiriau Gwledig.

<https://youtu.be/Lc2d5p4-kE>

Cynghrair Wledig Y Fenni

Mae prif ffocws Cynghrair Wledig Y Fenni wedi bod ar hyrwyddo'r dref fel cyrchfan i ymwelwyr ac mae hyn wedi cynnwys creu adran cynigion arbennig arloesol ar eu gwefan, creu a chyflwyno strategaeth cyfryngau cymdeithasol a thynnu sylw at yr hyn sydd gan y dref i'w gynnig i ymwelwyr mewn fideo hyrwyddo.

Roedd y fideo o dan y teitl "y porth i Gymru" yn defnyddio lluniau camera drôn i ddangos y cefn gwlad, adfeilion y castell hanesyddol a phrif ddigwyddiad y dref, ei gŵyl fwyd flynyddol. Mae'r cynghrair wedi bod yn defnyddio'r fideo fel teclyn hyrwyddo allweddol ac mae aelodau wedi bod yn cefnogi drwy gynnwys y fideo o fewn eu gwefannau eu hunain hefyd! Hyd yma mae'r fideo wedi cael ei gwyllo ychydig llai na 8,000 o weithiau ers ei lansio ym mis Ionawr 2015 gan gynhyrchu llawer o draffig i'w gwefan sy'n cael ei defnyddio gan ymwelwyr.



Cynghrair Wledig Crughywel

Fe ddeilliodd 'Totally Locally Crickhowell' o gynllun gweithredu Crughywel fel prosiect allweddol i'r Cyngbreiriau Gwledig ei gefnogi. Fe wnaeth Emma Corfield-Waters sy'n berchen ar Book-ish yng Nghrughywel "hyrwyddo'r cysyniad cenedlaethol hwn. Gwahoddwyd Chris Sands a Nigel Perry a greodd gysyniad 'Totally locally' i Grughywel i siarad gyda'r busnesau am sut mae 'Totally locally' yn gweithio. Yn dilyn hyn cafodd y llwybr pum punt a deg punt eu gweithredu yn ogystal â marchnad stryd lwyddiannus adeg y Nadolig.

Cyflwynwyd cystadleuaeth gelf stiwdios agored Crughywel fel rhywbeth newydd i fod yn rhan o'r rhaglen ar gyfer penwythnos y stiwdios agored a gynhaliwyd ym mis Mai. Daeth dros 400 o geisiadau i law gyda nifer o weithiau gan artistiaid amatur yn cael eu harddangos. Roedd yn llwyddiant ysgubol a bydd yn cael ei gynnal unwaith eto yn 2015.

Cafodd paneli newydd sy'n hyrwyddo'r teithiau cerdded gwych o amgylch Crughywel eu sefydlu ym mis Chwefror, un y tu allan i ganolfan CRiC ac un yn Bishop's Meadow. Gweithiodd aelodau'r pwyllgor ar ddyluniad a chynnwys y rhain ac mae croeso i gerdwyr o ardal Crughywel.

Ar gefn CRiC mae map newydd o ganol y dref a dynnwyd gan y darlunydd Lisa Hellier. Daeth y paneli o'r strategaeth arwyddion sef strategaeth y bydd Cyngor Tref Crughywel yn gweithio drwyddi'n raddol.

Yn olaf, mae map tref newydd ac arweiniad wedi'i gynhyrchu yn barod ar gyfer tymor yr haf.

I gael gwybod mwy am Totally Locally Crickhowell, cysylltwch ag Emma Corfield Waters emma@book-ish.co.uk; cysylltwch ag Elsa Cleminson am fwy o wybodaeth am Croeso i Gerddwyr elsa@visitcrickhowell.co.uk, Tony D 'Anna - AMDANNA@aol.com am wybodaeth am arwyddion Tref a Suzette Pratten - gallery@visitcrickhowell.co.uk am wybodaeth am stiwdios celf agored a'r gystadleuaeth gelf agored.

Cynghrair Wledig Y Gelli Gandryll

“ Mae cefnogaeth gan Gyngbreiriau Gwledig wedi helpu'r Gelli i ddatblygu a chynnal mentrau cerdded, beicio ac awyr dywyll sy'n dal i fynd o nerth i nerth. Mae Cyngbreiriau Gwledig hefyd wedi bod yn hanfodol wrth helpu i sefydlu menter cludiant cymunedol. Wrth wynebu toriadau yng nghyllideb yr Awdurdod Lleol aeth Grŵp Twristiaeth y Gelli Gandryll ati i gomisiynu astudiaeth i ddangos sut y gallai gwasanaeth bws cymunedol gael ei gychwyn, ei ariannu a'i weithredu. Gwnaed yr astudiaeth yn bosibl gyda chyllid Cynghrair Gwledig a hwn oedd y sbardun ar gyfer y gwasanaeth bws Hay Ho! hayhobus.org.uk a lansiwyd ym mis Hydref 2014. Mae'r gwasanaeth bws yn cysylltu â threnau sy'n cyrraedd yn ac yn ymadael â Henffordd a, chydha rhaglen o deithiau cerdded a digwyddiadau i gyd-fynd â'r gwasanaeth, mae'n mynd i fod yn rhan annatod o'r cynnig o ran twristiaeth gynaliadwy ar gyfer y Gelli Gandryll ”

Anna Heywood (pellaf ar y chwith yn y llun), Ysgrifennydd, Grŵp Twristiaeth y Gelli Gandryll.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r prosiectau uchod neu Cynghrair Wledig y Gelli Gandryll, cysylltwch ag Andrew Williams, y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy ar naill ai 01874 620476 neu andrew.williams@beacons-mpa.gov.uk

Cynghrair Wledig Talybont ar Wysg

“ Mae Talybont ar Wysg yn cael ei werthfawrogi a'i fwynhau nid yn unig gan bobl leol, ond hefyd, gan yr ystod amrywiol o dwristiaid sy'n dod i ymweld â'n pentref ac yn helpu i gadw ein tafarndai, y siop a'r economi leol yn ffyniannus. Mae busnesau twristiaeth o fewn y gymuned wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i annog mwy o ymwelwyr a gwella'r profiad i'n llu o ymwelwyr presennol i sicrhau eu bod yn dod yn ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rydym wedi llwyddo i gyflawni llawer iawn mewn cyfnod byr; o'n 'brandio cyrchfannau', arwyddion pentref a chyfeirbwyntiau i daflenni a deunydd hyrwyddo, ein gwefan newydd, mapiau a chyfleusterau dehongli ar gyfer ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd a llawer mwy! Byddai hyn wedi bod yn amhosibl heb gefnogaeth amhrisiadwy'r Cynghreiriau Gwledig ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Hoffem ddiolch yn gynnes iawn i'r ddau sefydliad! ”

Nigel Forster, Cadeirydd, Grŵp Twristiaeth Talybont ar Wysg.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cael mwy o wybodaeth am unrhyw rai o'r prosiectau uchod neu Gynghrair Wledig Talybont ar Wysg cysylltwch ag Andrew Williams, y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy naill ai ar 01874 620476 neu andrew.williams@beacons-npa.gov.uk neu gallwch fynd i <http://talybontonusk.com>

Bws Beiciau 2015

Mae'r Bws Beiciau yn dychwelyd i Fannau Brycheiniog ar 24 Mai eleni, a bydd yn gweithredu ar bob dydd Sul a dydd Llun Gŵyl y Banc tan 28 Medi.

Mae'r bws yn llusgo trelyr i feiciau o Gaerdydd i Aberhonddu yn y bore ac yn a'n mynd a dod rhwng Aberhonddu a'r Fenni, cyn dychwelyd i Gaerdydd ar ddiwedd y dydd.

Ewch i www.natgroup.co.uk am fwy o fanylion.

Cynghrair Wledig Llangors a Bwlch

Roedd busnesau mor awyddus i wneud i bethau ddigwydd ar gyfer y ddwy gymuned hon, fel bod grŵp llywio bychan wedi mynd ati pan oedd y cynllun gweithredu yn cael ei gynllunio, i greu map ac arweiniad ar gyfer Llangors a Bwlch. Hyd yma mae 32,000 o gopiau wedi'u hargraffu, gyda hanner y rhain wedi'u hariannu'n gyfan gwbl gan y busnesau.

Datblygwyd gwefan newydd i gyd-fynd â'r map a'r arweiniad i'w defnyddio fel lle y gall ymwelwyr gael gwybodaeth am yr ardal. www.aroundllangorselake.co.uk

Mae Cynghrair Wledig Llangors a Bwlch wedi dod yn gyfrifol am gynnwys a dosbarthu 'Grapevine' - cylchlythyr Cyngor Cymuned Llangors, ac mae hyn yn galluogi'r grŵp i wneud rhywfaint o arian o hysbysebu. Os hoffech hysbysebu yn y rhifyn nesaf a fydd yn ymddangos ar Orffennaf laf cysylltwch â Ryan Thomas erbyn 19 Mehefin. ryan.thomas@activityuk.com

Gwnaed astudiaeth o arwyddion ac mae hyn wedi arwain at godi arwyddion newydd ar gomin Llangors a fydd o gymorth i ymwelwyr. Mater arall yw arwyddion ffyrdd a fydd yn cymryd mwy o amser i'w gosod ond mae ceisiadau wedi eu gwneud ac mae'r grŵp yn gobeithio y bydd y rhain yn cael eu derbyn ac y bydd gwell arwyddion i'r pentrefi yn cael eu gosod. Y cam terfynol fu cynhyrchu llyfryn cerdded. Dechreuodd y gwaith ar hyn ym mis Medi 2014, ac roedd y llyfryn ar gael i'r cyhoedd ar gyfer Pasg 2015.

Mae'r grŵp wedi cytuno ar gyfansoddiad ac mae presenoldeb ardderchog bob amser yn y cyfarfodydd a gynhelir bob dau fis. Os hoffech chi ymuno â'r grŵp neu wybod mwy am ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol, cysylltwch â'r Cadeirydd, Norman Lowe norman@enviro-consulting.com

Cynghrair Wledig Talgarth

Mae arwyddion newydd yn y maes parcio ac yng nghanol y dref yn cynnig cyfle i ymwelwyr weld cymaint sydd i'w weld a'i wneud yn Nhalgarth.

Mae Melin Talgarth wedi bod yn atyniad gwych i'r dref, ond roedd angen datgelu'r llu o deithiau cerdded, y llwybrau beicio mynydd a'r gweithgareddau eraill y gallai ymwelwyr eu mwynhau. Mae'r llwybrau yn cael eu harddangos ar y paneli newydd sy'n rhoi awgrym i ymwelwyr o ehanger y gweithgareddau y gellir rhoi cynnig arny'n nhw o Dalgarth.

Cafodd logo newydd ar gyfer y dref ei gynllunio ac mae baneri sydd wedi bod yn chwifio ar y strydoedd yn Nhalgarth yn ei arddangos yn falch ynghyd â'r geiriau "A hub for activities in a stunning historic landscape". Mae gŵyl gerdded Talgarth wedi derbyn cefnogaeth ac mae bellach yn ei thrydedd flwyddyn. Mae mwy o fynegbyst wedi eu gosod er mwyn helpu ymwelwyr ddod o hyd i'w ffordd i ganol y dref. Bydd arwyddion croeso newydd yn ymddangos o amgylch y dref hefyd i estyn croeso cynnes i ymwelwyr.

Yn olaf mae gwefan newydd sy'n cael ei rheoli gan y gwirfoddolwyr yng Nghanolfan Gwybodaeth ac Adnoddau Talgarth wedi cael ei lansio ac mae croeso i fusnesau gael sylw ar y safle newydd - ewch i: www.visittalgarth.co.uk



Cofio am rôl Cymru ym Mrwydr Agincourt

Mae 2015 yn nodi 600 mlwyddiant Brwydr Agincourt. I bobl Aberhonddu, Tretŵr, Trecastell a Sir Fynwy mae'n achlysur arbennig iawn. Fe wnaeth arwyr lleol - gan gynnwys saethwyr y bwa hir Cymreig enwog - anfarwoli eu hunain yn y frwydr holl bwysig hon o'r 15fed ganrif.

Cynhelir digwyddiadau i'r teulu bob penwythnos ym mis Mehefin yn Sir Fynwy: Y Fenni (6) a Chastell Raglan (13-14), hefyd Aberhonddu (20) a Llys Tretŵr (27-28) yn y cyfnod sy'n arwain at goffau'r Frwydr ar 25 Hydref a bydd hyn yn cynnwys ffair ganol oesol, pasiant a gorymdaith, ailactio'r frwydr, cystadlaethau saethyddiaeth a gwleddoedd.

Dechreuodd rhaglen y digwyddiadau ar 20 Mawrth gyda darlith yn Theatr Brycheiniog, Aberhonddu, gan yr Athro Anne Curry, arbenigwr ar Harri V a Brwydr Agincourt. Fe wnaeth hi hefyd lansio arddangosfa Agincourt a luniwyd gan yr hanesydd lleol Bryan Davies, a fydd yn mynd ar daith o amgylch 10 o leoliadau yn ystod y flwyddyn. Bydd tapestri arbennig a grëwyd gan Brifysgol y Drydedd Oes yn cael ei arddangos ochr yn ochr â'r arddangosfa yn Aberhonddu.

Am fwy o wybodaeth a manylion y rhaglen barhaus o ddigwyddiadau arbennig ewch i www.agincourt600wales

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ofyn am gopïau caled o'r pecyn cymorth, neu efallai hyd yn oed sesiwn wedi'i hwyluso cysylltwch ag Andrew Williams, y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy ar naill ai 01874 620476 neu andrew.williams@beacons-npa.gov.uk

Rhaglen Synnwyr Busnes Da Siarter yr Ymwelwyr Cyfrifol

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn datblygu siarter unigryw i ymwelwyr cyfrifol o'r enw "5 Ffordd o Garu Bannau Brycheiniog" o dan y rhaglen Synnwyr Busnes Da a gefnogir gan y prosiect Cynghreiriau Gwledig.

Y llynedd gofynnodd y Parc Cenedlaethol i fusnesau twristiaeth am y pum prif fater oedd yn eu poeni; a'r rhain oedd; arbed ynni, ailgylchu, cludiant cynaliadwy, bwyd lleol a'r cod cefn gwlad. Ers hynny rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu cynllun 5 pwynt penodol i Fannau Brycheiniog sy'n annog ymwelwyr i ymddwyn yn gynaliadwy tra maent ar wyliau gan ddefnyddio negeseuon cynnil ond effeithiol a delweddu grymus.

Mae'r cynllun 5 pwynt fel a ganlyn:

Cofiwch Ddiffodd! Ar noson glir, syllwch i fyny ar yr awyr yn un o rannau tywyllaf Ewrop ac fe gewch weld gogoniant y Llwybr Llaethog. Mae diffodd goleuadau a throir gwres i lawr pan nad oes eu hangen yn gwneud mwy nag arbed ynni a lleihau allyriadau carbon. Mae'n helpu i warchod y nosweithiau hudolus yn y Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol hon.

Bwytywch Fwyd Lleol Gonest a Da Mae'r holl gynhwysion cywir yma: awyr lân, dyffrynnoedd ffrwythlon a digonedd o ddŵr ffres. Y canlyniad yw cig oen Cymreig blasus, brecwast Cymreig traddodiadol a hyd yn oed wisgi Cymreig! Byddwch yn blasu bwyd lleol mewn bwytaï gourmet, tafarndai clyd, siopau te hyfryd, marchnadoedd ffermwr, siopau deli ac yn ein hamrywiaeth eang o wyliau.

Mae llai yn fwy Mae ailddefnyddio bagiau siopa ac ailgylchu yn ffordd o fyw yma. Diolch i chi am ein helpu ni i leihau faint sy'n cael ei daflu. Mae gan y rhan fwyaf o drefi a phentrefi gyfleusterau ailgylchu, ac efallai y bydd eich darparwr llety yn rhoi biniau ailgylchu i chi hefyd - os na fyddant, gofynnwch.

Newid Gêr Mae'n hawdd ac yn hwyl mynd o gwmpas yn yr awyr agored: beth am roi cynnig ar y bws, trê, beic, canŵ, ceffyl neu ddim ond eich esgidiau cerdded! Mae yna hyd yn oed fflyd o geir trydan ffyni i ddau o bobl a gefnogir gan rwydwaith cyfeillgar o bwyntiau gwefru ar draws y Parc. Fe synnwch pa mor arbennig mae'r cefn gwlad yn edrych o safbwynt gwahanol.

Teimlwch yn Agosach, Anadlwch yn Haws Mae ein tirwedd brydferth yn dda i chi - cofiwch ei thrin fel y byddech yn trin ffrind. Gallwch fynd yn agos at fywyd gwyllt, blodau a phlanhigion, ond peidiwch â tharfu arny'n nhw. Defnyddiwch lwybrau lle y bo'n bosibl, cadwch eich ci dan reolaeth ac ewch â'ch sbwriel adref bob amser. Diolch yn fawr.

Yn ogystal â datblygu taflen hyrwyddo mae'r prosiect hefyd wedi creu cardiau pebyll ar gyfer cynteddau, crogfachau i ddrysau ystafelloedd ymolchi a thempledi poster y gellir eu golygu a'u lawrlwytho y gallai pob busnes ar draws y Parc Cenedlaethol a hoffai ran-nu'r neges hon eu defnyddio! Bydd y Siarter Ymwelwyr yn cael ei lansio yn nigwyddiad Llysgenhaddon y Parc Cenedlaethol ddydd Iau 7 Mai, 2015.

Am fwy o wybodaeth ewch i <http://www.beacons-npa.gov.uk/communities/tourism-new/green-tourism/> ag Andrew Williams, y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy ar naill ai 01874 620476 neu andrew.williams@beacons-npa.gov.uk

Mynegai Mesur Bwrlwm Gwledig

Mae partneriaid prosiect Cynghreiriau Gwledig Interreg IVB wedi datblygu pecyn cymorth unigryw i fesur bwrlwm gwledig yn eich ardal. Mae'r Mynegai Mesur Bwrlwm Gwledig, neu "Rural Vibes" yn becyn cymorth ar-lein AM DDIM sy'n gyflym ac yn hawdd i'w ddefnyddio ar gyfer cymunedau gwledig, grwpiau, pentrefi a threfi i fesur pa mor fywiog ydyn nhw, gan roi adborth ar unwaith. Mae'r arolwg sy'n cymryd tua 10 munud i'w gwblhau yn creu darlun cyffredinol o sut mae eich cymuned yn gweld ei hun o ran nifer o themâu allweddol drwy gasglu canfyddiadau unigol yn ddi-enw.

Y cyfan sydd angen i chi ei wneud i ddechrau arni yw creu cod unigryw ar gyfer eich cymuned neu grŵp IE "Beacons1" ac yna sicrhau bod pawb sy'n cwblhau'r arolwg yn eich ardal hefyd yn defnyddio'r un cod, a bydd y pecyn cymorth yn rhoi'r canlyniadau diweddaraf i chi pryd bynnag y byddwch am eu gwirio nhw!

Gallwch weld yr arolwg yn www.ruralvibes.eu ac mae ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. < Gweler y chwith.

Y cyfle olaf i fanteisio ar ein Cymhorthdal Twristiaeth Werdd

Mae'r Cynllun Achredu Twristiaeth Werdd (<http://www.green-tourism.com/>) yn un o Raglenni Twristiaeth Gynaliadwy Mwyaf Credadwy'r Byd gyda bron i 2500 o aelodau yn y DU, a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer busnesau twristiaeth sydd am gymryd agwedd fwy cyfrifol at reoli. Mae'n offeryn profedig sy'n lleihau eich effaith ar yr amgylchedd, yn nodi arbedion o ran cost, yn gwella eich delwedd gyhoeddus ac yn cynnig dewis credadwy, mwy gwyrdd i ddefnyddwyr.

Felly, os ydych am leihau eich ôl-troed carbon, sicrhau eich bod yn defnyddio'r dewis mwyaf cyfeillgar i'r amgylchedd neu nodi cyflenwyr cyfrifol ar gyfer eich busnes, gallai GTBS eich helpu chi. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn falch o fod â 42 o fusnesau, gan gynnwys llety, caffis a siopau manwerthu sydd wedi ennill Gwobr Efydd, Arian neu Aur.

Tan 31ain Mai 2015 bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnig cymhorthdal o £75 tuag at dâl aelodaeth eich blwyddyn gyntaf. Yn ogystal, mae GTBS wedi hepgor y ffi ymuno unwaith ac am byth (£62.50 + TAW) ac mae'n cynnig gostyngiad o 10% ar dâl aelodaeth parhaus i fusnesau sydd wedi'u lleoli naill ai yn yr Ewroparc, neu sy'n aelodau o Dwristiaeth Bannau Brycheiniog. Mantais arall i chi yw ymweliad ymgynghorol rhad ac am ddim a drefnir ar amser sy'n gyfleus i chi, a fydd yn ymdrin â'r holl ffyrdd y gallwch wella eich busnes a llwyddo i ennill gwobr GTBS. Bydd hyn yn cael ei wneud gan Barbara Grantham yn ei rôl fel Cydlynnydd y Synnwyr Busnes Da. Bydd eich busnes yn derbyn adroddiad cynhwysfawr o fewn 4 wythnos a chefnogaeth a chymorth parhaus gan Barbara hyd at amser eich ymweliad asesu. Bydd GTBS yn cysylltu â chi i gynnig ymweliad asesu a ddylai yn ddelfrydol gael ei gynnal o fewn 3 mis o dderbyn eich adroddiad.

Mae'r ffi i ymuno â GTBS yn seiliedig ar faint busnes felly ewch i www.green-business.co.uk i weld y manylion yn llawn. I fanteisio ar y cymhorthdal hwn mae APCBB yn mynnu bod Croeso Cymru wedi graddio ansawdd busnes pob un o'r aelodau. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Barbara Grantham, Cydlynnydd y Synnwyr Busnes Da neu naill ai 01686 411166 neu barbara@dragonflysolutions.co.uk

Y Cyfryngau Cymdeithasol a chysylltu â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Oeddech chi'n gwybod bod yr Adran Dwristiaeth Gynaliadwy ar nifer o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol felly mae'n hawdd cadw i fyny â newyddion diweddaraf, digwyddiadau sydd i ddod a llawer iawn mwy?

Mae Cyfryngau Cymdeithasol hefyd yn llwyfan gwych i gael trafodaethau ar faterion cyfredol, e-rwydweithio a rhannu syniadau. Cadwch mewn cysylltiad â ni ar y llwyfan o'ch dewis



Facebook gwnewch gais i ymuno â'n grwp facebook Synnwyr Busnes Da yma: www.facebook.com/groups/BreconBeaconsGBS



Google Plus gwnewch gais i ymuno â'n cymuned Synnwyr Busnes Da ar Google+: <https://plus.google.com/communities/103857084613134534657>



Twitter dilynwch ni ar twitter, rydym yn dilyn yn ôl ac yn ail-drydar pan allwn! Ein cyfrif yw @Tourism_BBNP helpwch ni i gyrraedd 300 o ddilynwyr

Mae gennym hefyd fforwm Ewropeaidd sy'n tyfu fel rhan o brosiect y Gynghrair Wledig. Beth am ymuno â busnesau o'r un meddylfryd o bob rhan o Ewrop a gweld os gallwch chi rannu syniadau neu hyd yn oed weithio gyda'ch gilydd. I ymuno â'r rhwydwaith ewch i: <http://ruralalliancenenetwork.ning.com/members>

A yw eich hoff lwyfan cyfryngau cymdeithasol yn un nad yw'n cael ei grybwyll uchod? Gadewch i ni wybod; rydym yn fwy na pharod i edrych ar gynyddu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol os yw'r galw yno.

Eisiau mynd ar gyfryngau cymdeithasol, ond ddim yn siŵr sut neu pa lwyfan sydd orau i chi, yna cysylltwch â ni am sgwrs anffurfiol ac efallai y byddwn yn gallu helpu, ac os na fyddwn gallwn eich cyfeirio at y cyfeiriad cywir! Cysylltwch ag Andrew Williams, y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy ar naill ai 01874 620476 neu andrew.williams@beacons-npa.gov.uk.



Croeso i Gerddwyr yn Aberhonddu?

Beth sydd gan Grughywel, Y Gelli Gandryll, Talgarth, Y Fenni, Llandeilo a Llanymddyfri i gyd yn gyffredin? Maent wedi cyflawni statws Croeso i Gerddwyr ac wedi gweld manteision cynyddol i'w heconomi leol, eu llwybrau troed ac i drigolion lleol.

Mae Rhwydwaith y DU Croeso i Gerddwyr yn fenter genedlaethol a lansiwyd yn 2007 i annog trefi a phentrefi i fod yn 'groesawgar i gerddwyr'. Mae'r rhwydwaith wedi ehangu'n gyflym ac erbyn hyn mae dros 120 o leoliadau ar draws y DU wedi ymuno â'r cynllun arloesol hwn a arweinir gan y gymuned. Mae'r cynllun hefyd wedi mynd yn rhyngwladol gyda'r cysyniad wedi creu cymaint o argraff ar Gymdeithas Llwybrau Troed Japan fel eu bod bellach yn dechrau eu Rhwydwaith eu hunain.

Os hoffech chi gael gwybod mwy a helpu Aberhonddu i fanteisio ar gyrraedd y statws, yna mae croeso i chi gysylltu â Catrin.parish-marks@beacons-npa.gov.uk neu ymunwch â ni yn y cyfarfod nesaf a gynhelir am 1pm ddydd Mercher 13 Mai yng Ngwesty'r Wellington, Aberhonddu.



Canalathon 2015

Ar ôl llwyddiant ysgubol Canalathon cyntaf Aberhonddu a Sir Fynwy yn 2014, bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal eto yn 2015 ar Fedi 6ed. Mae timau o bedwar yn cymryd rhan yn y sialens 33 milltir hon ar hyd un o'r camlesi mwyaf hanesyddol a golygfaol yn y wlad.

Mae'r digwyddiad yn dechrau ym Masn Pontymoile gydag adran canwio agored am 5 milltir yn terfynu yng nglanfa brydferth Goetre sydd wedi cadw llawer o'i nodweddion hanesyddol ac a leolir mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol. Mae'r ail adran yn daith feicio 17 milltir cymharol wastad ar hyd y llwybr tynnu di-draffig ar hyd y gamlas i Langynidr lle mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn cyfnewid eu beiciau am adran o 11 milltir ar droed.

Tra bydd y rhai mwyaf athletaidd yn gwisgo'u 'sgidie rhedeg, efallai y bydd eraill yn dymuno mwynhau'r danteithion coginiol mewn amrywiaeth o sefydliadau lleol ar y ffordd, gyda diod neu ddau i'w golchi i lawr o bosibl.

Rhaid cadw un llygad ar y cloc oherwydd bod yn rhaid i'r her gael ei chwblhau o fewn y 12 awr benodedig. Mae'r adran olaf yn gorffen yn Aberhonddu yn y Clwb Rygbi lle bydd timau yn cael eu cyfarch gan gymeradwyaeth wresog a cherdoriaeth fyw, cyn derbyn eu medalau a thystysgrifau a bwyta pryd swmpus sy'n cael ei gynnwys yn y pris mynediad

Y pris mynediad yw £180 ar gyfer timau o bedwar sy'n cynnwys mynediad i'r digwyddiad, canwio agored, padlau, cymhorthion hynofedd, crys T y digwyddiad, medal arbennig, tystysgrif cwblhau a phryd o fwyd. Gweler www.mbact.org.uk/canalathon.php am fanylion pellach.

Travel Guide 2015

Mae fersiwn diwygiedig o'r Canllaw Teithio maint poced poblogaidd yn awr ar gael ym mhob Canolfan Groeso.

Mae'n rhoi'r holl wybodaeth y mae amyn nhw ei hangen i ymwelwyr i gynllunio eu teithiau lleol gan ddefnyddio bysiau, trenau a beiciau.



Ein Gwarchodfa Awyr Dywyll yn mynd o nerth i nerth

Ddwy flynedd ers ein dynodiad rydym yn parhau i ddatblygu hyd yn oed mwy i helpu ymwelwyr i fwynhau awyr brydferth y nos yn yr ardal.

Mae bwrdd ar waith bellach i helpu i fwrw ymlaen gyda chynlluniau ar gyfer y warchodfa gyda chynrychiolydd o'r sector twristiaeth. Mae'r Gelli Gandryll yn mynd i gynnal yr ail Wyl Awyr Dywyll, ac erbyn hyn mae gennym dros 45 o Lysgenhadon Awyr Dywyll wedi'u hyfforddi a chynhaliwyd dros 30 o ddigwyddiadau syllu ar y sêr y llynedd. Mae Canllaw i'r Awyr Dywyll yn cael ei baratoi a fydd ar gael ym mis Mehefin - ei nod fydd helpu ymwelwyr i ddeall mwy am natur arbennig ein hawyr dywyll a dysgu sut y gallant ei mwynhau. Yn ogystal, un datblygiad cyffrous iawn oedd gosod ein harsyllfa ein hunain yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, sydd wedi bod yn hynod o boblogaidd gyda nifer o grwpiau addysgol a mynychwyr digwyddiadau. Mae'r telesgopau hefyd wedi ein galluogi i gael lluniau trawiadol o'n hawyr y nos arbennig!

Rydym yn awyddus i lawer o bobl sy'n gysylltiedig â'r Warchodfa Awyr Dywyll wneud defnydd o'r adnodd hwn. Er bod angen i'r cyfarpar gael ei osod ac yna ei weithredu gan seryddwr cymwys, gall busnesau drefnu digwyddiadau gyda'r nos ymlaen llaw i westeion.

Os hoffech chi gael gwybod mwy am sut y gallwch gymryd rhan ym mhrosiect y Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol neu gael mynediad i'r arsyllfa, cysylltwch â Ruth Coulthard ar 01874 620481 neu ruth.coulthard@beacons-npa.gov.uk

Y Parc Cenedlaethol yn gosod ei gerflunwaith sain cyntaf ger Llyn Syfaddan

Mae'r bywyd gwyllt amrywiol a lliwgar ar lannau gorllewinol Llyn Llangors wedi dod yn fyw drwy osod cerflun sain 6 troedfedd unigryw yn ei le - y cyntaf o'i fath ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae'n hawdd iawn cerdded drwy'r dolydd o flodau gwyllt yng Nghaeau Tŷ Mawr, Llangasty heb sylweddoli bod y rhain yn rhai o'r ychydig o ddolydd iseldir llawn blodau sydd ar ôl yn Sir Frycheiniog a'u bod yn bwysig o ran rhai rhywogaethau prin o fywyd gwyllt. Mae'r cerflun sain hardd hwn wedi ein galluogi i dathlu'r planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw yma, ac mae wedi creu profiad ysbrydoledig, llawn gwybodaeth a fydd gobeithio yn gofiadwy i ymwelwyr a fydd yn cael ei fwynhau am flynyddoedd i ddod.

Mae'r cerflun pren yn cynnwys Chwilen y Cyrs brin, Tresgl y moch, Pys y Ceirw, Mursen ac i gori'n'r cyfan blodau'r Clafrllys Gwreidd-don. O fewn y cerflun ceir chwaraewr sain sy'n cynnwys llais yr actores Tonya Smith o Bobol y Cwm. Mae yna ddewis o bedwar o glipiau sain yn egluro pam mae'r safle o bwysigrwydd cenedlaethol, gan drafod sut y mae'r Parc Cenedlaethol a'r ffermwr sy'n denant ar y tir yn rheoli'r dolydd yn sensitif er mwyn galluogi eu hamrywiaeth gyfoethog o flodau gwyllt i ffynnu, gyda straeon a llên gwerin am y rhywogaethau sy'n byw yno ac eglurhad ynghylch pam fod y llifogydd tymhorol mor hanfodol i'w goroesiad. Mae'r traciau sain hyn, ynghyd â chyfarwyddiadau i ddod o hyd i'r cerflun ar gael o www.breconbeacons.org/caeautymawr

Cafodd y prosiect ei ariannu ar y cyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac fe'i cynlluniwyd i gefnogi cynllun rheoli Llangasty - Caeau Tŷ Mawr sy'n cydbwysu'r gwaith o warchod bywyd gwyllt bregus y safle gyda'r mwynhad gan ymwelwyr.



Rhwydwaith Llysgenhadon Cymru Gyfan

Cafodd Hyfforddiant Llysgenhadon Cymru ei gcontractio gan Croeso Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a dosbarthu holl raglenni'r Llysgenhadon Twristiaeth ymhellach ledled Cymru. Mae Hyfforddiant Llysgenhadon Cymru (ATW), a sefydlwyd yn 2014, yn fenter gymdeithasol sydd wedi ymrwmo i greu profiad gwirioneddol gofiadwy, lleol a dilys i ymwelwyr sy'n dod i Gymru. Mae ATW yn cynnwys y tîm a ddatblygodd ac a gyflwynodd y Rhaglen Hyfforddiant Llysgenhadon yn llwyddiannus ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd yn ystod y cyfnod 2010-2013.

O weld y gwaith caled y mae Llysgenhadon yn ei wneud a'r bobl sy'n gweithio yn y diwydiant, gan gynnwys busnesau, atyniadau a gwirfoddolwyr lleol, mae cysyniad y Llysgenhadon Twristiaeth yng Nghymru wedi mynd o nerth i nerth. Ledled Cymru, mae dros 10 cynllun gwahanol ar gyfer Llysgenhadon (ac maent yn cynyddu), ac mae'n wych gweld gwahanol grwpiau Llysgenhadon gyda llawer o bobl leol frwdfrydig yn cynnig y croeso cynnes Cymreig hwnnw i ymwelwyr, sydd am gymryd rhan i ddatblygu twristiaeth ymhellach. Gyda hyn mewn golwg, mae'n bwysig bod pob un o'r cynlluniau Llysgenhadon yn parhau i weithio gyda'i gilydd ar gyfer dyfodol y diwydiant yng Nghymru, ac mae'n hanfodol bwysig bod Cymru yn arwain trwy esiampl ac yn gallu dangos i gyrchfannau ymwelwyr sut y gallant weithio gyda'i gilydd.

Rydym yn awr yn ceisio dod â'r holl gynlluniau hyn at ei gilydd er budd twristiaeth yn lleol ac yn genedlaethol. Bydd astudiaeth achos yn ymwneud â Llysgenhadon Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymddangos hefyd ynghyd â nifer o enghreifftiau eraill o bob rhan o Gymru a'r DU. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei lanlwytho fel adnodd ar www.dm.wales.com (gwefan Rheoli Cyrchfannau Croeso Cymru) yn ystod yr wythnosau nesaf, felly cymerwch olwg arni pan gewch gyfle!

I gael rhagor o wybodaeth am ATW a'r gwaith yr ydym yn ei wneud, ewch i'n gwefan; www.ambassadors.wales.com neu e-bostiwrch ni ar ambassadors.wales@gmail.com

Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru Newyddion da i fusnesau Bannau Brycheiniog

Mae gennym newyddion gwych i'w rhannu gyda chi!

Yng Ngwobrau Twristiaeth Cenedlaethol Cymru, llwyddodd dau fusnes rhagorol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i ennill gwobrau AUR. Enillodd Wye Valley Canoes a Bunkhouse y wobr i'r 'Lle Gorau i Aros - Hosteli, tai bynciau a Llety Amgen' ac enillodd The Bakers' Table CIC ym Melin Talgarth y dosbarth 'Y Lle Gorau i fwyta - Caffi'.

Enillwyd gwobr arian gan Wyl Fwyd y Fenni yn y categori 'Digwyddiad Gorau (mawr)', aeth tair gwobr efydd i Fferm Antur Cantref am y 'Croeso Gorau i Ymwelwyr', i Langoed Hall am y categori 'Y Lle Gorau i Aros (Gwesty)' ac i Ryan Thomas o Ganolfan Marchogaeth a Rhaffau Llangors yn y categori 'Seren Ifanc yn ymddangos ym myd Twristiaeth'. Roedd hon yn noson wych i bawb. Rydym yn hynod o falch drostyn nhw ac yn anfon ein llongyfarchiadau mawr i'r holl fusnesau a gymerodd ran.


I ddarllen mwy am yr enillwyr a'r ail oreuon ewch i: www.walesonline.co.uk

Hanner cant o lluniau newydd i chi eu defnyddio

<http://brand.breconbeacons.org>

Cofrestrwch gyda'r wefan hon a gallwch lawrlwytho'r lluniau newydd ynghyd â logos a phopeth sy'n gysylltiedig â brand y gyrchfan.

I'ch temtio chi rydym wedi defnyddio grant gan Croeso Cymru i brynu'r hawliau i hanner cant o ffotograffau gan saith o ffotograffwyr gwahanol sy'n dangos golygfeydd ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r delweddau hyn i gyd ar gael yn awr i chi eu lawrlwytho am ddim i'w defnyddio yn eich gwefannau ac yn eich deunyddiau cysylltiadau cyhoeddus. Y syniad yw y gallwch ddefnyddio'r delweddau hyn i ddangos i'ch cleientiaid fod eich busnes wedi ei leoli yn y Parc Cenedlaethol. Ni ddylech ddefnyddio'r lluniau mewn unrhyw gyhoeddiad yr ydych yn mynd i'w werthu, ond ar gyfer deunyddiau rhad ac am ddim, dewiswch pa un bynnag y dymunwch. Yn olaf, un gair o rybudd - os oes gennych gysylltiad araf iawn gall gymryd peth amser i'w gweld nhw i gyd felly byddwch yn amyneddgar.



Os gallwch gydnabod y ffotograffwyr byddem ni (a hwythau) yn ddolchgar ac os ydych yn hoffi unrhyw lun o'u gwaith yn arbennig rhowch wybod iddyn nhw - mae eu manylion cyswllt ar y wefan. Mae'r lluniau i gyd yn cael eu dewis i adlewyrchu'r brand ac yn defnyddio golau neu liw yn greadigol i dynnu sylw at destun y llun ac maent yn aml yn adlewyrchu sut mae golau a chwmwl yn newid golwg y dirwedd.

Gobeithio y byddwch yn ystyried bod hwn yn adnodd defnyddiol.



Cysylltiadau

Richard Tyler

Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy
01874 620405
E-bost richard.tyler@beacons-npa.gov.uk

Carol Williams

Swyddog Ardal Twf Twristiaeth
01874 620478
E-bost carol.williams@beacons-npa.gov.uk

Catrin Parish-Marks

Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy
01874 620490
E-bost catrin.parish-marks@beacons-npa.gov.uk

Andrew Williams

Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy
01874 620476
E-bost andrew.williams@beacons-npa.gov.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn derbyn cymorth grant trwy'r Cynghreiriau Gwledig. Mae Cynghreiriau Gwledig yn brosiect trawsriadol €10 miliwn, yr ariennir 50% ohono gan Raglen Gogledd Orllewin Ewrop ERDF Interreg IVB sy'n cynnwys deuddeg o bartneriaid gwahanol o Gymru, Iwerddon, Ffrainc, yr Almaen, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg. Mae'n cael ei ariannu ar y cyd gan Groeso Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, TPMW, Cyngor Sir Powys ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Plas y Ffynnon, Cambrian Way
Aberhonddu, LD3 7HP Powys

www.breconbeacons.org
www.visitbreconbeacons.com
www.cyclebreconbeacons.com
www.horseridingbreconbeacons.com
www.mtbbreconbeacons.com
www.businessinfobreconbeacons.com

Dyluniad: touchdown 07973 711523
Ffotograffiaeth : © Hawlfrain y goron (2011) Croeso Cymru, Peter Williams, Dan Santillo, Jon Phillips.

Dewch i ddarganfod y Bannau Brycheiniog tawelach

Mae cynghrair Dyffryn Wysg Uchaf yn mynd o nerth i nerth. Mae'r grŵp gweithgar o fusnesau a thirgoliau lleol wedi trefnu ychydig o ddigwyddiadau dros y misoedd sydd i ddod er mwyn helpu pobl leol ac ymwelwyr i ddarganfod "ochr dawelach Bannau Brycheiniog."

Ddydd Gwener 24 Ebrill maent yn cynnal eu digwyddiad Awyr Dywyll cyntaf yn Nhrecastell. Mae gan Ddyffryn Wysg Uchaf sy'n cynnwys cymunedau Trecastell, Pont Senni, Defynnog, Heol Senni a Chrai nid un ond dau (!) safle darganfod awyr dywyll yn eu hardal - cronfa ddŵr Wysg a phentref Crai. Bu'r digwyddiad mor boblogaidd fel ei fod wedi gwerthu allan 3 wythnos cyn y dyddiad - hyd yn oed y sesiwn ychwanegol y bu'n rhaid iddynt ei threfnu. Os nad ydych wedi llwyddo i gael un o'r 120 o docynnau edrychwch ar eu gwefan i weld y lluniau, a dyddiadau'r digwyddiad Awyr Dywyll nesaf www.upperuskvalley.co.uk

I'r rhai ohonoch a deithiodd trwy Drecastell y gwanwyn hwn efallai y byddwch wedi sylwi ar 600 ar siâp daffodil mawr ar ochr y ffordd. Ymladdodd nifer o ddynion yr ardal yn y frwydr gan gynnwys Syr Watkyn Lloyd a gafodd ei wneud yn farchog ar faes y gad gan Harri'r V. Cynhelir arddangosfa deithiol Agincourt 600 yn eglwys Llywel o ddydd Sadwrn 15fed i ddydd Mercher 26 Awst 2015 a bydd yn cyd-fynd â'r ŵyl flodau leol sy'n werth ymweld â hi o'i rhan ei hun.

Mae cynlluniau ar y gweill hefyd ar gyfer digwyddiadau pellach gan gynnwys rhywbeth arbennig yng nghronfa ddŵr Wysg felly cadwch olwg ar y wefan neu ar y dudalen facebook i gael mwy o wybodaeth.

Digwyddiadau Twristiaeth Bannau Brycheiniog 2015

Cyfarfodydd Aelodau

Dewch draw i'n cyfarfodydd aelodau a gynhelir bob deufis, lle y gallwch ddysgu am yr holl newyddion diweddaraf am dwristiaeth, yn lleol ac yn genedlaethol, yn ogystal â chwrdd â busnesau eraill fel chi. Cynhelir pob cyfarfod o 10:00 tan 12.30. Mae croeso i rai nad ydynt yn aelodau hefyd.

Dydd Mawrth 23 Mehefin **Canolfan Ymwelwyr Garwant** ger Merthyr
Dydd Mawrth 22 Medi **Gwesty Gliiffaes, ger Crughywel** gyda thro yng nghoed Gilfaes wedyn
Dydd Mawrth 17 Tach **Y Banc** Aberhonddu

Hyfforddiant NEWYDD

Ysgrifennu Cynnwys Gwych - gwneud y gorau o'ch cyfleoedd i greu cysylltiadau cyhoeddus yn ddigidol ac mewn print

Mercher 20 Mai **CRiC** Crughywel, 9.30-12.30.
£10 i aelodau, £25 i rai nad ydynt aelodau
I archebu eich lle e-bostiwch laura@breconbeaconstourism.co.uk

Y cyfryngau cymdeithasol

Rydym yn cynnal nifer o ddigwyddiadau eleni lle y gallwch ddysgu a chael hwyl

Dydd Mercher 17 Mehefin **Blasu'r Bannau - gwin, cwrw a bwyd**
7pm, **Griffin Felinfach** ger Aberhonddu. Dewch draw i flasau gwin syber, cwrw lleol, seidr a bwyd gwych; a dysgwch oddi wrth yr arbenigwr ar win, Julie Bell o FFG, pa ddiod ddylai fynd gyda pha fwyd. Tocyn mynediad. Rhagor o fanylion i ddilyn.

Dydd Mawrth 6 Hydref **Awchu am Fwyd a gasglwyd yn yr Hydref**
10.30-12.30, Talybont ar Wysg. Taith llawn gwybodaeth ar hyd Camlas Talybont gyda'r arbenigwr ar chwilota am fwyd gwyllt lleol, Adele Nozedar. Cinio ar gael wedyn yng nghaffi Camlas Talybont. Am ddim i aelodau, £5 i rai nad ydynt yn aelodau.
Am fwy o wybodaeth anfonwch e-bost at laura@breconbeaconstourism.co.uk